Cynllun Chwarae'r Haf Sir y Fflint

Mewn partneriaeth â chynghorau tref a chymuned lleol – sesiynau chwarae – am ddim!!

Bydd tîm Cynllun Chwarae Haf Cyngor Sir y Fflint yn cynnig sesiynau 'mynediad agored' am ddim i blant 5-12 oed yn eich cymuned. Mae 'mynediad agored' yn golygu bod croeso i bob plentyn ymuno mewn cynifer o sesiynau ag y gallant, a hynny'n ddi-dâl, drwy gydol y rhaglen. Gall y plant fynd a dod fel y mynnant. Mae diogelwch eich plentyn yn bwysicach na dim felly rhowch gyfarwyddiadau clir yn ymwneud â phresenoldeb eich plentyn yn y sesiynau. Os bydd plentyn yn mynnu gadael y safle'n gynnar, rhaid iddi fod yn ddealledig y bydd yn gwneud hynny gyda'ch caniatâd chi. Mae croeso hefyd i riant neu ofalwr (oedolyn) aros ar y safle.

Y plant fydd yn llywio'r gweithgareddau ac yn dewis beth y maent am ei wneud. Gweithwyr chwarae hyfforddedig fydd yn gyfrifol am y sesiynau a byddant yn hwyluso'r chwarae gyda chymorth amrywiaeth o syniadau ac offer. Gwneir defnydd llawn o'r elfennau a'r amgychledd naturiol.

Ni allwn dderbyn plant dan bump oed gan fod angen darpariaeth a sylw arbennig ar y grŵp oedran hwn, ac ni allwn gynnig hynny. Fodd bynnag, caiff plant dan bump oed ddod i'r sesiynau os bydd rhiant neu ofalwr (oedolyn) yn barod i aros ar y safle a chymryd cyfrifoldeb personol dros eu diogelwch.

Dyma rai o'r gweithgareddau a gaiff eu cynnig:

- Adeiladu cuddfan
- Chwaraeon a gemau
- Chwarae â dŵr/ chwarae budr
- Celf a chrefft

Dewch draw i ymuno yn yr hwyl!!!

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Uned Chwarae ar - 01352 744034

Sir y Fflint Flintshire

Llywodraeth Cymru Welsh Government